# Adroddiad ar

# Ysgol Dinas Brân
# Ffordd Dinbren
# Llangollen
# Sir Ddinbych
# LL20 8TG

**Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg ddwyieithog 11-18 yw Ysgol Dinas Brân yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn Llangollen, ac yn gwasanaethu'r dref a'r ardaloedd cyfagos, yn cynnwys Corwen a'r Waun. Daw tua 65% o'r disgyblion o ranbarthau yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae 984 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 210 yn y chweched dosbarth. Caiff tua un o bob deg o'r disgyblion eu haddysgu yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn golygu eu bod yn astudio bron pob un o'u pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 a mwyafrif y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn grwpiau blwyddyn eraill. Mae'r ysgol wedi sefydlu canolfan gymorth i ddisgyblion. Mae'r cyfleuster hwn yn cynnig cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan un deg tri y cant o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%. Mae pedwar pwynt pump y cant o'r disgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae saith disgybl yn 'derbyn gofal' gan awdurdod lleol.

Mae'r disgyblion a dderbynnir yn yr ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae gan ddau y cant o ddisgyblion ddatganiadau o angen addysgol arbennig, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.6%. Cydnabyddir bod gan 25% arall o ddisgyblion ystod o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae un deg tri o ddisgyblion wedi'u datgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae un ar ddeg y cant o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith neu i safon gyfwerth.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi newid yn sylweddol. Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd yn 2005, a phenodwyd pob un o'r tri phennaeth cynorthwyol yn dilyn yr arolygiad diwethaf. Bydd pedwerydd pennaeth cynorthwyol yn dechrau ar ei swydd ym mis Medi.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dinas Brân yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,425 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych yw £4,659 a'r isafswm yw £3,831. Ysgol Dinas Brân yw'r ail o blith yr wyth ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Dinas Brân yn dda oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi, gan adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol;
- bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn gwella ac yn agos at berfformiad ysgolion tebyg;
- bod yr ysgol yn darparu ystod ragorol o brofiadau dysgu;
- bod addysgu o ansawdd da mewn llawer o wersi;
- bod lefel uchel iawn o ofal a chymorth i ddisgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd fwyaf agored i niwed; a
- bod nifer o fforymau effeithiol lle gall disgyblion ddweud eu dweud am agweddau amrywiol ar fywyd yr ysgol.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol, ac fe gaiff ei chefnogi'n dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth;
- bod gwelliannau sylweddol wedi bod yn ansawdd y ddarpariaeth, ymddygiad a pherfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y blynyddoedd diwethaf;
- bod yr ysgol wedi cymryd camau effeithiol i sicrhau bod ei chyllideb yn cael ei defnyddio'n fwy effeithlon; a
- bod y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu ymhellach.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Dinas Brân:

A1 godi safonau yng nghyfnod allweddol 3 ac mewn Cymraeg mamiaith a Chymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4;

A2 cynyddu rôl arweinwyr canol wrth arfarnu ansawdd yr addysgu a pherfformiad eu hadrannau;

A3 gwella prosesau rheoli llinell fel bod ganddynt ffocws craffach ar herio pob adran; a

A4 sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn golygu bod yr ysgol yn y 25% gwaelod o ysgolion y mae eu lefelau prydau ysgol am ddim yn debyg. Gwelir patrwm tebyg yn y pynciau craidd yn unigol ac ym mwyafrif y pynciau nad ydynt yn rhai craidd. Mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6 ac yn uwch islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Dros y pedair blynedd diwethaf, er bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi amrywio, mae'n dangos gwelliant sylweddol. Mae perfformiad ym mhob un o'r dangosyddion allweddol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion erbyn hyn. Mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi amrywio, ond yn 2011, roedd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion y mae eu lefelau prydau ysgol am ddim yn debyg.

Ac eithrio Cymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 3, nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol ym mherfformiad bechgyn a merched. Yn 2009 a 2011, fe wnaeth disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim berfformio'n dda iawn ar draws ystod o ddangosyddion. Nid oedd eu perfformiad mor gryf yn 2010.

Dros y tair blynedd diwethaf, bu perfformiad myfyrwyr y chweched dosbarth yn foddhaol.

Mae mwyafrif y disgyblion Blwyddyn 11 yn ennill cymwysterau lefel 2 Sgiliau Hanfodol Cymru mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chymhwyso rhif.

Dros y pum mlynedd diwethaf, nid oes yr un disgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn galw i gof ddysgu o wersi blaenorol yn dda a gallant adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda mewn grwpiau a pharau, maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn gwrando'n ddigon da pan fydd athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau dosbarth, er mai lleiafrif ohonynt yn unig sy'n rhoi atebion mwy estynedig i gwestiynau.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant, a gallant ddewis gwybodaeth berthnasol o ystod o destunau. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, yn amharod i ddarllen ar goedd o flaen eu cyfoedion.

Mae ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gywir ac yn adlewyrchu eu hoedran a'u gallu yn dda. Mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd da o derminoleg sy'n benodol i bwnc, ac mae ganddynt eirfa eang. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir at ystod eang o ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu adroddiadau, erthyglau arddull papur newydd a dyddiaduron mewn sawl pwnc. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn defnyddio paragraffau'n ddigon da i drefnu eu gwaith ysgrifenedig. Mae disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn gwneud mwy o gamgymeriadau â'u sillafu Cymraeg ac weithiau'n defnyddio geiriau Saesneg mewn testunau Cymraeg am nad ydynt yn gwybod y geiriau Cymraeg cywir. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd gofal priodol â chyflwyno eu gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae gan rai disgyblion waith ar goll neu waith anghyflawn, ac er bod hyn yn cael ei nodi gan yr athro, nid eir i'r afael ag ef.

Mewn ychydig iawn o bynciau, mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol, er nad yw hyn wedi'i ddatblygu digon ar draws y cwricwlwm.

Mewn Cymraeg ail iaith a Chymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad wedi golygu bod yr ysgol ymhlith y chwarter gwaelod o ysgolion o ran prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 4, caiff pob disgybl yn y ffrwd Gymraeg ei gofrestru ar gyfer cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg mamiaith, ond mae perfformiad islaw'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg. Yn 2011, ychydig iawn o ddisgyblion a enillodd gymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg ail iaith. Fodd bynnag, er Medi 2011, mae pob disgybl ym Mlwyddyn 10 yn awr yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw, ac mae tua hanner y disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd yn rhaglen '5 x 60' yr ysgol. Mae holl ddisgyblion Blwyddyn 7 yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau ymarfer corff pymtheg munud hefyd, y mae myfyrwyr chweched dosbarth yn eu cynnal bob yn ail ddydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, ac maent yn gwrtais ac yn dangos parch at eu cyfoedion, oedolion eraill ac ymwelwyr ar y cyfan. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u cymell yn dda ac yn dangos agweddau brwdfrydig tuag at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, er bod ychydig iawn ohonynt yn cyrraedd cyfnodau cofrestru'n hwyr. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi aros yn weddol gyson, er ei fod erbyn hyn yn y 50% gwaelod o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg. Mae data nas gwiriwyd a gasglwyd er Medi 2011 yn dangos gwelliant sylweddol mewn presenoldeb o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Caiff disgyblion eu cynrychioli'n dda ar ystod eang o fforymau gwneud penderfyniadau. Mae'r pwyllgor rhyngwladol yn grŵp hynod effeithiol, ac mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ystod o weithgareddau i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill, ac empathi atynt. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn nifer o arolygon am eu lles ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol, yn cynnwys dysgu, yr iaith Gymraeg a bwyd yn nhŷ bwyta'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn dylanwadu ar bolisïau'r ysgol, ac mae uwch ddisgyblion yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol yn rheolaidd.

Mae gan ddisgyblion rôl arwyddocaol yn eu cymuned leol. Er enghraifft, fel rhan o'r 'wythnos gweithredu cymunedol', mae disgyblion Blwyddyn 9 yn gweithio'n frwdfrydig i wella gorsaf reilffordd y Waun, clirio llwybrau tynnu lleol a meithrin gardd gymunedol. Mae medrau cymdeithasol a bywyd disgyblion yn dda iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae darpariaeth gwricwlaidd yn un o nodweddion rhagorol yr ysgol. Yn ogystal â darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol, mae'r ysgol yn arloesol ac yn ddychmygus yn y ffordd y mae'n darparu'n gynhwysfawr ar gyfer gwahanol anghenion a dyheadau disgyblion, beth bynnag fo'u gallu neu'u diddordebau arbennig. Mae enghreifftiau'n cynnwys y rhaglen 'llwybr carlam' ar gyfer disgyblion mwy abl, sy'n dechrau ym Mlwyddyn 8, a'r rhaglen 'cerddoriaeth i bawb' yng nghyfnod allweddol 3.

Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n briodol ar brofiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 4, yn ogystal â chynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Mae hyn wedi effeithio'n sylweddol ar berfformiad ar draws ystod o ddangosyddion.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang iawn o weithgareddau allgyrsiol, ac mae nifer dda o ddisgyblion yn eu mynychu. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau personol disgyblion ac yn cyfrannu'n dda tuag at eu lles.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae darpariaeth ddychmygus o ansawdd da iawn yn bodoli i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd. Defnyddir dull ysgol gyfan i ailgylchu ac arbed ynni. Yn ychwanegol, mae nifer o brosiectau, ar dir yr ysgol ac yn y gymuned, yn gwella'r amgylchedd lleol.

Mae'r ysgol yn effeithiol iawn yn sicrhau ymwybyddiaeth weithredol disgyblion o'u rôl mewn cymdeithas a'r byd. Mae holl ddisgyblion cyfnod allweddol 3 yn cymryd rhan mewn wythnos 'Addysg Ryngwladol a Chymunedol' ar ddiwedd tymor yr haf. Mae hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm, ac yn annog disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill a phobl sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. Mae'r prosiectau a'r ymweliadau diddorol a gwerthfawr niferus, yn ogystal â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad cymdeithasol, diwylliannol a gyrfaoedd disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau, yn enwedig rhaglenni ymyrraeth, wedi'i chynllunio'n ofalus. Mae'r cydlynydd llythrennedd yn awr yn gweithio'n frwdfrydig ac yn effeithiol gydag adrannau, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad a dilyniant medrau mewn gwersi. Mae adrannau'n nodi medrau yn eu cynlluniau gwaith, ac mewn rhai adrannau, mae ffocws clir ar ddatblygu medrau llythrennedd lefel uwch.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn datblygu'n dda mewn rhai agweddau, er ni wnaed digon o gynnydd i wella safonau mewn Cymraeg. Mae'r ysgol yn effeithiol wrth ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o Gymru a'i lle yn y byd ehangach. Mae tri hyrwyddwr dwyieithog yn arwain hyrwyddo'r ethos Cymreig ar draws yr ysgol, yn cynnwys datblygiad iaith staff ac arddangosiadau'r ysgol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ethos Cymreig yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas waith gadarnhaol gyda disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn dangos brwdfrydedd dros eu pwnc. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel am safonau ac ymddygiad disgyblion hefyd. Maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a dysgu priodol sy'n ennyn diddordebau disgyblion ac yn bodloni eu hanghenion yn dda. Mae cyflymder llawer o wersi'n dda. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn deall syniadau neu gysyniadau newydd cyn symud ymlaen. Mae athrawon yn defnyddio cynorthwywyr cymorth dysgu'n effeithiol i gefnogi disgyblion sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol. Mewn rhai gwersi, mae cynllunio soffistigedig a chwestiynau heriol yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd. Mae llawer o athrawon yn rhoi sylwadau ysgrifenedig ac adborth llafar i ddisgyblion sy'n eu helpu i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella ansawdd eu gwaith. Mewn lleiafrif o bynciau, caiff disgyblion gyfleoedd da i roi ymatebion meddylgar iawn, gan arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn dda.

Caiff perfformiad disgyblion ei olrhain yn effeithiol a'i fonitro'n rheolaidd ar draws y cwricwlwm i sicrhau bod unrhyw feysydd problem yn cael eu nodi a chamau'n cael eu cymryd. Mae penaethiaid adran, rheolwyr dysgu (penaethiaid blwyddyn) ac uwch aelodau o staff yn defnyddio data asesu yn briodol i gefnogi a gwella dysgu.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth fanwl am gyrhaeddiad a chynnydd eu plentyn. Fodd bynnag, mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd y targedau ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd, lles a dysgu yn effeithiol. Mae ganddi raglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sy'n cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ystod eang o faterion cyfoes. Mae agweddau ar y rhaglen 'myfyrdod y dydd' yn ychwanegu'n dda at ddatblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y cyfnodau tiwtor dosbarth a'r gwasanaethau'n bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer y weithred ddyddiol o gyd-addoli.

Mae'r ganolfan gymorth i ddisgyblion yn cynnig ystod eang o grwpiau cymorth, er enghraifft 'ysgolion coedwig' a 'thymhorau ar gyfer twf', sy'n effeithio'n gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion sy'n agored i niwed ac yn sicrhau bod pob disgybl yn gadael gyda chymhwyster cydnabyddedig. Mae disgyblion sydd mewn perygl o beidio â chyflawni eu potensial yn cael cymorth buddiol trwy gynllun mentora'r ysgol hefyd, sy'n cefnogi disgyblion sy'n tangyflawni.

Mae system arloesol o raddio fesul gwers yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'u hymddygiad a'u hymdrech yn gyson. Mae hyn wedi arwain at ymddygiad gwell mewn gwersi.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang o gymorth pan fydd angen.

Mae'r ddarpariaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae rhaglen gymorth glir a strwythuredig, ac mae cynlluniau addysg unigol yn benodol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol neu'n amlach os bydd angen, er enghraifft i ymateb i nosweithiau opsiynau neu nosweithiau rhieni. Caiff disgyblion eu haddysgu'n aml yn 'Ffau'r Ddraig' ('Dragon's Den') (sy'n rhan o'r ganolfan gymorth i ddisgyblion) a'u hintegreiddio i'r brif ffrwd yn ddiweddarach.

Mae sesiynau tynnu allan o wersi, sy'n canolbwyntio ar ddarllen a rhifedd yn arbennig, yn cynnig cymorth effeithiol ar gyfer anghenion penodol disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gynhwysol, sy'n gwerthfawrogi cyfle cyfartal. Mae staff a disgyblion yn hyrwyddo ethos croesawgar a gofalgar. Mae'r ethos hwn wedi'i seilio ar weledigaeth yr ysgol fod 'Pawb yn Cyfri ac yn Cyflawni'. Mae'r ysgol yn hyrwyddo amrywiaeth yn dda iawn, a rhoddir blaenoriaeth uchel i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lle yn y byd.

Mae'r safle yn ddigonol i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm, ac mae wedi gwella'n sylweddol er yr arolygiad diwethaf. Mae'r ysgol yn amgylchedd dymunol, sy'n cynnwys offer da ac wedi'i gyflwyno'n dda sy'n annog disgyblion i gyflawni eu potensial. Yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth, y coridorau a'r mannau allanol, gwelir arddangosiadau da o waith disgyblion. Maent yn darparu amgylchedd lliwgar, ysgogol a chadarnhaol ar gyfer dysgu. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal yn dda, ac maent yn ddiogel. Mae ansawdd y cyfleusterau chwaraeon yn dda, a'r toiledau a'r cyfleusterau newid mewn cyflwr priodol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac mae wedi ysgogi llawer o'r newidiadau sydd wedi cael effaith gadarnhaol yn yr ysgol, yn enwedig ar ddeilliannau

disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r tri phennaeth cynorthwyol yn rhoi cymorth da i'r pennaeth. Mae ganddynt rolau diffiniedig, y maent yn eu cyflawni'n effeithiol, ac maent yn gweithio'n dda yn unigol ac fel tîm.

Caiff gweledigaeth o ysgol lle mae 'Mae Pawb yn Cyfri ac yn Cyflawni' ei rhannu gan bob o'r staff a'r llywodraethwyr, ac fe gaiff ei chyfleu yn effeithiol i ddisgyblion a rhieni trwy ddogfennaeth a chyfarfodydd. Mae cyfathrebu yn yr ysgol yn effeithiol, ac mae wedi cael ei wella yn sgil cyflwyno amgylchedd dysgu rhithwir yr ysgol.

Mae gan yr ysgol strwythur rheoli priodol. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu ffocws ar wella ansawdd a chysondeb rheolwyr canol. Er mwyn cyflawni hyn, mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr wedi cymryd camau cadarn i ddelio â staff sy'n tanberfformio. Mae llawer o arweinwyr canol yn trefnu gwaith eu hadrannau'n effeithlon, ac yn sicrhau bod athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol a bod ansawdd y ddarpariaeth yn dda. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o arweinwyr canol yn gwbl effeithiol yn eu rolau.

Mae pob aelod o'r tîm arweinyddiaeth yn gweithredu fel rheolwr llinell i nifer o arweinwyr canol. Trwy drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol a phresenoldeb mewn cyfarfodydd adrannol, mae'r trefniant hwn wedi arwain at welliannau mewn meysydd pwysig, er enghraifft perfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mae trylwyredd, her a chysondeb annigonol yn cyfyngu effaith gyffredinol yr agwedd hon ar waith arweinwyr mewn rhai meysydd darpariaeth a deilliannau yng nghyfnod allweddol 3.

Mae trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer pob un o'r staff. Mae targedau wedi'u cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion datblygiad proffesiynol aelodau unigol o staff. Mae trefniadau addas ar waith i sicrhau bod staff yn gallu dilyn hyfforddiant sy'n bodloni eu targedau.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'r ysgol a'i pherfformiad, a gafwyd yn bennaf trwy gyflwyniadau gan y pennaeth ac aelodau eraill o staff. Maent yn rhoi cymorth brwdfrydig i'r ysgol ac yn cymhwyso lefel briodol o her yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol. Mae pob aelod o'r corff llywodraethol yn gysylltiedig ag un adran neu'n cymryd cyfrifoldeb am agwedd benodol ar waith yr ysgol. Mae llywodraethwyr, ynghyd ag uwch arweinwyr, wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â materion anodd yn ymwneud â staffio a chyllid yn ddiweddar.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol, fel Llwybrau Dysgu 14-19, llythrennedd a mynd i'r afael â'r cyswllt rhwng amddifadedd a thangyflawni. Mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi cymryd camau priodol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol systemau addas i uwch reolwyr arfarnu'r addysgu a'r dysgu. Mae'r uwch dîm yn cynnal adolygiad o bob adran bob dwy flynedd, sy'n cynnwys craffu ar waith disgyblion ac arsylwi gwersi. Mae arbenigwyr pwnc o'r tu allan i'r ysgol yn arsylwi gwersi yn achlysurol i gynnig safbwynt arall, ond nid oes gan benaethiaid adran ac athrawon ystafell ddosbarth rôl ddigon amlwg yn yr adolygiadau hyn.

Mae'r uwch dîm yn arfarnu darpariaeth ac ymddygiad hefyd trwy 'deithiau cerdded a dysgu' o amgylch yr ysgol a thrwy gynnal dadansoddiad defnyddiol o olrhain data bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r ysgol yn ystyried safbwyntiau disgyblion trwy arolygon, sydd weithiau wedi dylanwadu ar ddarpariaeth neu bolisïau. Nid eir ati'n systematig i ofyn am safbwyntiau rhieni, ond gallant ysgrifennu sylwadau ar adroddiadau ac yng nghynllunwyr disgyblion.

O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, mae uwch reolwyr yn adnabod yr ysgol a'i hathrawon yn dda.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn ddogfen fanwl iawn sy'n rhoi darlun addysgiadol o'r ysgol ac mae'n disgrifio'i chryfderau'n dda. Mae'n nodi rhai meysydd i'w gwella, ond nid yw'n rhoi digon o fanylion amdanynt.

Mae'r cynllun gwella ysgol gyfan yn cynnwys meysydd priodol i'w gwella ac mae'n darparu gwybodaeth am y modd yr eir i'r afael â'r rhain. Mae meini prawf llwyddo mesuradwy mewn rhai meysydd pwysig, ond nid yw hyn yn gyson ar draws y cynllun. Ni chaiff camau eu blaenoriaethu digon, ac nid yw'r cynllun yn cyfeirio'n ddigon eglur at rai meysydd pwysig presennol i'w gwella. Mae'r pennaeth a'r uwch reolwyr wedi cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â diffygion mewn llawer o feysydd. Maent wedi mynd i'r afael â bron pob un o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol yn llwyddiannus.

Nid yw hunanarfarnu a chynllunio datblygiad ar lefel adrannol yn fanwl nac yn ddigon effeithiol. Ychydig o ddefnydd a wneir o dystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannau yn amrywiol iawn o ran eu hansawdd. Mae cynlluniau datblygu adrannau yn well na'r hunanarfarniadau ar y cyfan, ond mae eu hansawdd yn amrywio gormod o hyd.

Mae pob un o'r athrawon yn perthyn i un o chwe gweithgor yr ysgol. Mae o leiaf un aelod o bob grŵp wedi ymweld ag ysgol arall i edrych ar arfer dda. Mae staff yn gwerthfawrogi gwerth y grwpiau hyn, sydd wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar arfer yn yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ystod o bartneriaid i wella'r ddarpariaeth ar gyfer ei disgyblion.

Mae cyfarfodydd cynnydd a digwyddiadau eraill a drefnir yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i athrawon ac uwch arweinwyr gyfarfod â rhieni. Mae amgylchedd dysgu rhithwir yr ysgol, y cafodd rhieni fynd ato'n ddiweddar, yn helpu i rannu gwybodaeth gan yr ysgol ac yn galluogi rhieni i gyfathrebu'n haws ag athrawon ac arweinwyr hefyd.

Mae cysylltiadau sefydledig gyda'r 14 ysgol gynradd sy'n bwydo'r ysgol. Mae prosesau fel trosglwyddo gwybodaeth berthnasol ac ymweliadau disgyblion Blwyddyn 6 â'r ysgol yn helpu i sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino'n gyflym pan fyddant yn symud i Flwyddyn 7. Nid yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau parhad yn y cwricwlwm wedi'u datblygu cystal.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol â dau goleg addysg bellach i gynnig ystod eang o gyrsiau i fodloni anghenion pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae prosesau addas ar waith i arfarnu ansawdd y trefniadau hyn.

Mae cysylltiadau cymunedol yn gryfder mawr yn yr ysgol. Trwy weithio gydag ystod o bartneriaid yn yr ardal leol, mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth i ddisgyblion gyfrannu at weithgareddau fel cyngherddau, gwaith elusennol a'r Eisteddfod Ryngwladol flynyddol. Sefydlwyd ystod drawiadol o bartneriaethau gydag ysgolion a sefydliadau eraill ym mhob cwr o'r byd. Mae'r rhain wedi cael effaith sylweddol ar ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ac ar eu datblygiad personol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Ers ei phenodi, mae'r pennaeth, gyda chymorth da iawn gan y rheolwr busnes a'r rheolwr cyllid, wedi cymryd camau pendant i fynd i'r afael â nifer o faterion cyllid. Roedd yr ysgol yn wynebu diffyg sylweddol yn ei chyllideb, ond mae'n gweithredu trwy wario yn unol â'i hincwm erbyn hyn. Maent wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth wneud arbedion pwysig a denu arian sylweddol o ystod eang o ffynonellau, tra'n meithrin cysylltiadau cryf gyda chwmnïau lleol.

Mae'r ysgol yn defnyddio nifer briodol o athrawon cymwys, sy'n cael eu cefnogi'n dda gan staff nad ydynt yn addysgu. Caiff penderfyniadau ariannol eu gwneud yn ofalus ac yn ddoeth. Mae llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn agos.

Mae'r ysgol yn rheoli ei staff a'i hadnoddau'n dda iawn, ac mae'r rheolaeth ariannol yn cynnwys nodweddion rhagorol. Gan fod safonau'n dda, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi parhau'n weddol gyson, ond mae islaw'r cyfartaledd o gymharu â chanlyniadau cymharol yn y teulu o ysgolion. Er 2008, mae perfformiad wedi bod yn y 50% is hefyd o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 wedi dirywio. Yn y ddwy flynedd diwethaf, bu'n is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu ac yn y 50% is o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi aros yn sefydlog, ac am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn y 50% is o ganlyniadau perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith wedi gwella, ond mae islaw cyfartaledd yr ysgolion tebyg eto ac yn y 25% gwaelod o gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y pynciau craidd ar lefel 6 neu'n uwch wedi bod gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4 er 2008, mae canlyniadau trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella, ac maent ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion erbyn hyn. Yn 2011, roedd perfformiad ymhlith y 25% uchaf o gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg. Er 2008, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 wedi cynyddu'n sylweddol, ac yn 2011, roedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Roedd y perfformiad hwn yn golygu hefyd fod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.
Yn ystod yr un cyfnod, bu gwelliant yn y canlyniadau ar gyfer trothwy lefel 1 ac mae'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg erbyn hyn. Er 2010, mae'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o gyfnodau allweddol blaenorol.

Dros y pum mlynedd diwethaf, nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol heb ennill o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig. Ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn nhrothwy lefel 3 ychydig yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yn is na'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru a'r awdurdod lleol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiadur i ddysgwyr

Cafodd Estyn ymatebion gan 226 o ddisgyblion a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran. Roedd yr holl ymatebion yn fwy cadarnhaol na'r rhai a gafwyd gan ysgolion uwchradd eraill.

Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod rhywun y gallant droi ato/ati os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda a bod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer, ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith. Dywed llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth y cawsant gyngor da wrth ddewis eu cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth.

Dywed llawer o ddisgyblion fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi bod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cadarnhau bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill, ac mae llawer ohonynt yn credu bod staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau. Dywed llawer o ddysgwyr hefyd fod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

### Holiadur i rieni

Cafwyd cant pum deg wyth o holiaduron gan rieni, a mynegodd y rheini safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol ar y cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Dywed y rhan fwyaf o rieni fod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a'i fod/bod wedi cael cymorth i ymgynefino pan ddechreuodd yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn credu bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod yr addysgu'n dda, ac mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, dod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod ystod dda o weithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod gwaith cartref yr ysgol yn adeiladu'n dda ar waith yr ysgol, ac

mae llawer ohonynt yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod staff yn trin pob un o'r plant yn deg ac yn eu parchu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol, ac mae llawer ohonynt yn credu bod eu plentyn yn cael ei baratoi/pharatoi'n dda ar gyfer y cyfnod dysgu nesaf neu gyflogaeth. Mae llawer o rieni'n teimlo bod yr ysgol yn rhoi gwybod yn dda iddynt am gynnydd eu plant. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem ac maent yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Catherine Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Steffan James | Arolygydd Tîm |
| Kevin Adams | Arolygydd Tîm |
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Nerys Nicholas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Chris Cheffings | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A*-E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |